# Astudiaeth Achos Cefnogi Cymunedau

## Cyflwyniad

Prosiect ar y cyd oedd y Prosiect Cefnogi Cymunedau rhwng Cyngor Sir Powys a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO), a gychwynnwyd mewn ymateb i'r nifer uchel o ymholiadau yn ymwneud â Throsglwyddo Asedau Cymunedol a dderbyniwyd gan y ddau sefydliad.

Nodau ac amcanion y prosiect:

- Cyflwyno presenoldeb gweladwy cryf ar gyfer gwasanaethau a gyflwynir gan y gymuned led led Powys.
- Cefnogi gwasanaethau a gyflwynir yn lleol mewn dull cynaliadwy gyda phartneriaethau gwaith a dulliau cydweithredol effeithiol.
- Sicrhau fod Powys yn cael ei chydnabod fel enghraifft ar gyfer cyflwyno cymunedol.
- Gweithio mewn partneriaeth i gynnwys cymunedau yn weithgar wrth wneud synnwyr o'r materion sy'n effeithio ar eu bywydau, gosod nodau i wella ac ymateb i broblemau ac anghenion trwy rymuso a chyfranogiad gweithredol.
- Gweithio gyda'r gymuned i ddynodi eu hanghenion a materion gan lunio strategaeth i fynd i'r afael â'r materion hynny.
- Rhoi'r cyfle i bobl drawsnewid eu bywydau a diwallu angen lleol.
- Cynyddu cryfder nifer y gwasanaethau ac asedau a gyflwynir gan gymunedau ym Mhowys.

Dechreuodd y prosiect ym mis Ebrill 2017 gyda phenodi dau Swyddog Datblygu, sef Pauline Chapman-Young a Nick Venti. Symudodd Nick at brosiect PAVO arall yn fuan wedi hynny a daeth Tim Davies yn ei le, a ddechreuodd ei ddyletswyddau ym mis Gorffennaf 2017.

Cyflwynwyd y prosiect i weithio gyda sefydliadau a grwpiau i hwyluso deilliant llwyddiannus 'Rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol' y Cyngor. Roedd hyn yn galluogi cymunedau i fabwysiadu a derbyn y gwaith o gynnal a rheoli eiddo, tir a gwasanaethau'r cyngor. Roedd y Swyddogion Datblygu yn gweithredu fel cyfryngau cyswllt rhwng y Cyngor, PAVO, a'r grwpiau; gan sicrhau eu bod yn addas i'r diben a chyda'r holl adnoddau i gamu i fyny at yr her o reoli ased.

Ymwelwyd â'r sefydliadau oedd yn sicrhau asedau cyn dechrau 'Cefnogi Cymunedau' i roi cyfle i'r grwpiau i rannu gwybodaeth ar eu profiad o drosglwyddo asedau, a ddefnyddiwyd gan y swyddogion 'Cefnogi Cymunedau' a'r Cyngor i helpu trosglwyddo asedau yn y dyfodol. Roedd rhai o'r grwpiau yn gofyn am gefnogaeth i oresgyn anawsterau yr oeddynt wedi dod ar eu traws.

Ehangodd y prosiect ‘Cefnogi Cymunedol’ i feysydd ychwanegol o gefnogaeth, gyda swyddogion yn hwyluso a chefnogi trefi ym mhob cwr o’r sir dan y fenter ‘Tair-Tref’ dan arweiniad Cyngor Sir Powys.

Maes gwaith yw’r fenter ‘Tair -Tref’ y byddai Cynghorwyr Sir yn hoffi ei gweld yn cael ei chyflwyno ar draws y sir. Mae’n gyfle i gymunedau, sydd wedi’u cysylltu’n agos, i gydweithio er eu budd yn economaidd ac yn gynaliadwy.

Mae’r broses wedi dechrau eisoes yn Llandrindod, Llanfair-ym-Muallt, Rhaeadr Gwy, ac yn ddiweddar yn Nhalgarth, Crughywel a’r Gelli Gandryll.

Mae’r fenter yn ei babandod, ond mae’r swyddogion yn obeithiol y bydd llwyddiant yn y trefi hyn yn ysbrydoli trefi eraill i godi’r batwn a gwneud y mwyaf o weithio gyda’n gilydd.

## Yr Her

Yn Hydref 2017, newidiodd Cyngor Sir Powys ei bolisi o ran Trosglwyddo Asedau gyda phrydlesi yn hytrach na rhydd-ddaliadau yn dod yn opsiwn newydd oedd yn cael ei ffafrio.

Arweiniodd y newid mewn polisi at arafu’r broses o gymunedau yn mynegi diddordeb mewn trosglwyddo asedau, a oedd yn golygu y daeth prif ddangosyddion perfformiad y prosiect ‘Cefnogi Cymunedau’ yn anodd i’w cyflawni.

Mae cynnydd gyda datblygu prosiectau wedi bod yn arafach na’r gobaith am nifer o resymau, yn bennaf oherwydd y ffaith mai gwirfoddolwyr sy’n rhedeg yr holl grwpiau a sefydliadau mae’r prosiect yn eu cefnogi, oedd yn golygu fod rhaid i’r swyddogion prosiect weithio ar eu cyflymder hwy. Mae nifer o enghreifftiau o brosiectau sydd wedi eu dechrau a’u cefnogi gan y prosiect ‘Cefnogi Cymunedau’ na fydd yn cael eu cwblhau erbyn diwedd y prosiect ‘Cefnogi Cymunedau’.

## Yr Ateb

Sefydlwyd y prosiect ‘Cefnogi Cymunedau’ i gefnogi sefydliadau gwirfoddol trwy’r Broses o Drosglwyddo Asedau Cymunedol. Nod y prosiect oedd rhoi gwybodaeth, cefnogaeth a chyfarwyddyd i’r grwpiau er mwyn iddynt gael y wybodaeth a’r hyder i wneud penderfyniadau yn seiliedig ar hyn.

## Y Budd

Mae’r prosiect ‘Cefnogi Cymunedau’ wedi darparu cyswllt rhwng Cyngor Sir Powys a’r sefydliadau sy’n edrych ar drosglwyddo ased.

Gyda’r swyddogion prosiect ar waith, mae cynghorydd penodedig gan grwpiau a sefydliadau, y gallent drafod llu o faterion gyda hwy a gofyn iddynt am gyngor. Mae hyn wedi cynnwys gwybodaeth benodol ar strwythurau cyfreithiol, llywodraethu, cyfleoedd

ariannu, cynllunio busnes, cydymffurfiaeth, iechyd a diogelwch, arfer gorau, a hyfforddiant.

## Y Canlyniad

Nod y prosiect fel y darluniwyd uchod oedd cefnogi sefydliadau trwy roi'r wybodaeth a'r hyder iddynt i'w galluogi i wneud penderfyniadau yn seiliedig ar hynny. Tra bo rhai grwpiau wedi symud ymlaen gyda throsglwyddo ased yn llwyddiannus, penderfynodd grwpiau eraill i beidio â symud ymlaen trwy wneud penderfyniadau eu hunain wedi ystyried y ffeithiau yn seiliedig ar y wybodaeth a gyflwynwyd gan y prosiect. Dylid nodi na ddylid ystyried sefydliad sydd heb symud ymlaen gyda throsglwyddo ased fel methiant, gan mai un o brif amcanion y prosiect oedd sicrhau fod gan sefydliadau y capasiti a'r sgiliau angenrheidiol ar waith cyn ymrwymo i weithredu gwasanaeth neu adeilad am gyfnod arwyddocaol.

## Deilliannau/Canlyniadau'r Prosiect

| Allbwn (Dangosydd Lefel Achos) | Cyflawnwyd |
|---|---|
| Nifer yr astudiaethau dichonolrwydd | |
| Nifer y rhwydweithiau a sefydlwyd | 3 |
| Nifer y swyddi a ddiogelwyd | |
| Nifer y gweithgareddau peilot a gyflawnwyd / a gefnogwyd | 1 |
| Nifer yr hybiau cymunedol a grewyd | |
| Nifer y rhanddeiliaid a gafodd eu cynnwys | 32 |
| Nifer y cyfranogwyr a gefnogwyd (digwyddiadau codi ymwybyddiaeth yn unig) | 227 |
| Astudiaethau Achos | 36 |

| Deilliannau | Cyflawnwyd |
|---|---|
| Nifer y swyddi a grewyd | |
| Nifer y cymunedau sy'n elwa | 23 |
| Nifer y busnesau sy'n elwa | 2 |

## Manylion Cyswllt y Prosiect

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â: Pauline Chapman-Young a Tim Davies, PAVO
www.pavo.org.uk

## Logos Partneriaid/ Arianwyr Cyfatebol

## Manylion y Prosiect

| Data Allweddol | Manylion y Prosiect |
|---|---|
| Cyflwynwyd gan: | Pauline Chapman-Young a Tim Davies, PAVO |
| Dyddiad Dechrau: | Ebrill 2017 |
| Dyddiad Diwedd: | Mehefin 2019 |
| Thema LEADER: | 3 – Archwilio ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaeth lleol anstatudol |

## Manylion Ariannol

| Disgrifiad | Swm | % |
|---|---|---|
| Cyfanswm y Gwariant: | £167,200.61 | 100.00% |
| Nawdd y Cynllun Datblygu Gwledig | £133,673.24 | 79.95% |
| Nawdd cyfatebol: | £33,527.37 | 20.05% |

Astudiaeth achos a gwblhawyd ar: 28.2.2020